**CABINET**
**22 MAI 2018**

Cofnodion cyfarfod o Gabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mawrth, 22 Mai 2018.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Christine Jones, Billy Mullin, Ian Roberts a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu, ac Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIAD:**
Y Cynghorydd Derek Butler.

**AELOD ARALL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Patrick Heesom.

## 172. DATGAN CYSYLLTIAD

Cafwyd datganiad cysylltiad personol gan y Cynghorydd Thomas yn eitem rhif 7 ar yr agenda – Mabwysiadu Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Cafwyd datganiad cysylltiad personol gan y Cynghorydd Bithell yn eitem rhif 10 ar yr agenda – Model Bwrdd Llywodraethu Diwygiedig ar gyfer Theatr Clwyd. Derbyniwyd datganiad cysylltiad personol gan y Prif Weithredwr yn yr eitem hon hefyd oherwydd roedd yn aelod o'r Bwrdd.

Cafwyd datganiadau cysylltiad personol a rhagfarnus gan y Cynghorwyr Attridge a Jones yn eitem rhif 13 ar yr agenda – Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Prosiect Ysgol Uwchradd Cei Cona – Amrywiad i'r Contract Arfaethedig.

## 173. COFNODION

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 wedi eu dosbarthu gyda'r agenda a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**174. ADRODDIAD MONITRO DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor am 2017/18. Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi perfformio'n dda ac yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol ar gyfer Cynllun y Cyngor a'r adroddiadau Perfformiad Blynyddol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod hwn yn adroddiad alldro cynnar gyda'r gwahanol feysydd gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol. Byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad llawn.

Lle nad oedd targedau wedi cael eu cwrdd, neu lle dangosodd ddangosydd perfformiad statws RAG coch, byddai cynllun gweithredu'n cael ei gynhyrchu i edrych yn fanwl ar ba gamau y gellid eu cymryd i atal tanberfformio yn y dyfodol ac a ddylid cario'r dangosydd drosodd i Gynllun y Cyngor 2018/19 i gadw ei broffil. Byddai'r cynlluniau gweithredu'n cael eu hadrodd yn gyntaf i'r Cabinet.

Ychwanegodd y Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu ei fod yn adroddiad cadarnhaol gyda 83% o'r gweithgareddau wedi'u hasesu i fod wedi gwneud cynnydd da, a 74% wedi cyflawni'r canlyniad oedd mewn golwg. Dangosodd y dangosyddion perfformiad gynnydd da, gyda 56% wedi cwrdd neu'n agos at darged y cyfnod. Roedd risgiau'n cael eu rheoli'n llwyddiannus gyda'r mwyafrif wedi eu hasesu i fod yn gymedrol (63%), mân (8%) neu'n ddibwys (6%). Ar y risgiau, eglurodd fod y rhan fwyaf wedi eu dylanwadu gan ffactorau allanol fel newidiadau cyllid.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y lefelau cynnydd, perfformiad a risg yn adroddiad monitro Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn cael eu nodi a'u cadarnhau; a

(b) Y dylai'r Cabinet gael ei sicrhau gan y cynlluniau a'r gweithredu i reoli'r gwaith o ddarparu Cynllun y Cyngor 2017/18.

**175. Y STRATEGAETH ADFYWIO RANBARTHOL A LLYWODRAETH CYMRU RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) adroddiad ar y Strategaeth Adfywio Ranbarthol a Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI).

Lansiodd Llywodraeth Cymru (LlC) y Rhaglen TRI i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau adfywio ar draws Cymru. Roedd y cyllid yn amodol ar gyflwyno strategaeth adfywio ranbarthol a mabwysiadu dull blaenoriaeth ranbarthol o ddatblygu cynigion buddsoddi.

Roedd strategaeth adfywio ddrafft wedi cael ei datblygu o fewn yr amserlen heriol a osodwyd ar gyfer y broses, a dull cydweithredol wedi'i fabwysiadu ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu a blaenoriaethu buddsoddiad,

ac i dargedu'r adnoddau prin at ardaloedd adfywio blaenoriaeth a phrosiectau thematig a fyddai'n defnyddio tair blynedd gyntaf y rhaglen TRI.

Roedd strategaeth adfywio ddrafft Gogledd Cymru'n cynnig deuddeg o drefi fel ardaloedd adfywio blaenoriaeth, a chawsant eu rhestru yn yr adroddiad. Cafodd y trefi hyn eu hadnabod ar sail eu safle ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer amddifadedd. Roedd safleoedd trefi Treffynnon a Shotton yn Sir y Fflint yn 7$^{fed}$ ac 8$^{fed}$. Roedd dau brosiect thematig a allai gael eu gweithredu i'r trefi yn Sir y Fflint, sef adnewyddu tai ac adeiladau allweddol.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r strategaeth adfywio ranbarthol ddrafft i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 176. ADOLYGIAD SENEDDOL O IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones adroddiad ar yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi manylion a'r camau nesaf yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Roedd y galw am ofal iechyd a chymdeithasol wedi cynyddu'n aruthrol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Roedd hyn wedi creu her sylweddol i'r gwasanaethau cyhoeddus a phenderfynodd Llywodraeth Cymru (LlC) sefydlu'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adnabod sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus ragweld ac ymateb yn well i'r galw newydd arnynt.

Ar sail canfyddiadau'r ymgynghori a'r fforymau rhanddeiliaid, gwnaeth yr adroddiad terfynol ddeg o argymhellion i LlC oedd yn adlewyrchu canfyddiadau Adroddiad Interim Gorffennaf 2017 yn agos. Cafodd yr argymhellion eu crynhoi yn yr adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod manylion wedi dod i law am Gronfa Arloesi a Thrawsnewid a bod £100m ar gael ar draws Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Y disgwyl oedd y byddai Gogledd Cymru'n derbyn tua £10m ac y byddai proses fidio'n dechrau ym mis Mehefin.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas pa mor bwysig oedd helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain er mwyn osgoi ynysu cymdeithasol a bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan allweddol o hynny. Awgrymodd y gellid defnyddio peth o'r cyllid o'r Gronfa Arloesi a Thrawsnewid i'r pwrpas hwn. Croesawyd yr awgrym gan y Prif Swyddog a eglurodd fod argymhelliad 7: 'Harneisio arloesi a chyflymu datblygiadau technoleg a seilwaith' wedi'i anelu'n benodol at bethau o'r fath. Dywedodd y Cynghorydd Shotton y gallai elfen strategaeth ddigidol argymhelliad rhif 7 gael ei chysylltu i'r cais ar gyfer Bargen Twf y Gogledd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r ymateb i'r adroddiad; a

(b) Bod y Cabinet yn cyfrannu at y gwaith cenedlaethol drwy drefnu bod Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Rhaglen Ranbarthol Gogledd Cymru.

**177. MABWYSIADU NODYN CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL – ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ar Fabwysiadu Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (SPG) – Ardal o Harddwch Naturiol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AoHNE) yn gofyn am gymeradwyo terfynol ar gyfer mabwysiadu'r SPG yn ffurfiol.

Roedd yr SPG wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Gynghorau Sir y Fflint, Dinbych a Wrecsam ac wedi bod yn destun ymgynghori helaeth gyda'r cyhoedd. Yr argymhelliad oedd bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn mabwysiadu'r SPG.

Nod yr SPG oedd gwella ansawdd datblygu yn ac o gwmpas yr AoHNE a sicrhau bod yr Ardal yn ystyriaeth ddylunio ar ddechrau un y broses o ddylunio datblygiad.

Siaradodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) am yr atodiadau oedd yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a'r ymatebion a'r newidiadau oedd yn cael eu hargymell, a'r SPG diwygiedig yn dangos y diwygiadau.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) fel bod gan yr Ardal bwysau fel ystyriaeth gynllunio o bwys wrth ystyried ymholiadau, ceisiadau ac apeliadau cynllunio perthnasol.

**178. ANSAWDD YR AER YN SIR Y FFLINT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ar Ansawdd yr Aer yn Sir y Fflint oedd yn rhoi trosolwg a chanfyddiadau o'r Adroddiad Rhanbarthol ar Ansawdd yr Aer ac yn argymell sut y gallai'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo ystyriaethau ansawdd aer wrth wneud penderfyniadau strategol a gweithredol allweddol.

Y brif ffynhonnell llygredd aer yn Sir y Fflint oedd allyriadau o gerbydau ar y prif ffyrdd yn cysylltu Lloegr i weddill Gogledd Cymru, ar hyd yr A55 a'r A494 er enghraifft. Roedd rheoli ansawdd yr aer yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus ac roedd angen cydweithio'n lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i wella'r aer yr oedd pobl yn ei anadlu.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod diweddar o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd lle'r oedd wedi'i gefnogi'n lawn. Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a chyfeiriwyd at ardaloedd o lygredd aer drwg fel yr A494, Parc Siopa Brychdyn a'r cyffiniau, a'r tu allan i ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Annog holl bolisïau a phenderfyniadau Cyngor Sir y Fflint, lle’r oedd hynny’n briodol, i ystyried yn rhagweithiol beth fyddai’r effaith ar ansawdd yr aer;

(b) Y dylai gwaith y Cyngor gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel rhan o'u thema amgylcheddol, hyrwyddo dull amlasiantaethol o wella ansawdd yr aer; a

(c) Nodi cynnwys adroddiad cyfunol rhanbarthol Gogledd Cymru ar Ansawdd yr Aer. O ganlyniad i’r asesiad, nodir hefyd nad oes angen uwchgyfeirio unrhyw weithredu ac y bydd parhau i fonitro’r sefyllfa’n ddigon i gwrdd â’n hymrwymiadau cyfreithiol.

**179. DIWEDDARIAD AR SIR Y FFLINT YN CYSYLLTU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin adroddiad yn rhoi Diweddariad ar Sir y Fflint yn Cysylltu yn nodi’r cynnydd hyd yma gyda throsglwyddo gwasanaethau wynebu'r cwsmer i Sir y Fflint yn Cysylltu fel y gallai cwsmeriaid dderbyn ymateb i'w ymholiadau drwy’r pwynt cyswllt cyntaf bob tro lle’r oedd hynny’n bosib.

Roedd cynnydd sylweddol wedi’i wneud ar draws nifer o wasanaethau, gan gynnwys atebion tai, bathodynnau glas a refeniw a budd-daliadau gan olygu bod arbedion wedi bod yn bosib gyda swyddogaethau cefn swyddfa.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod rhai newidiadau ar y gweill i wneud arbedion pellach heb orfod cau'r un o’r canolfannau, a hyn i’w gyflawni drwy newid yr oriau agor o fis Mehefin 2018. Ar sail y galw a’r pwysau presennol a’r ffigurau is yn galw heibio ym Mwcle, eglurodd fod y ganolfan bellach wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod a’i bod yn gwbl hygyrch i bawb; roedd wedi’i lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad o’r blaen. Byddai swyddogion yn mynychu cyfarfod o Gyngor Tref Bwcle yn y dyfodol i ofyn iddynt helpu gyda hyrwyddo’r ganolfan Cysylltu gyda phreswylwyr lleol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r diweddariad ar wasanaeth Sir y Fflint yn Cysylltu; a

(b) Nodi rôl gwasanaeth Sir y Fflint yn Cysylltu gyda chefnogi’r Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol.

**180. MODEL BWRDD LLYWODRAETHU DIWYGIEDIG AR GYFER THEATR CLWYD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) yr adroddiad ar Fodel Bwrdd Llywodraethu Diwygiedig ar gyfer Theatr Clwyd yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith gyda diwygio’r model ar gyfer Bwrdd Llywodraethu’r Theatr, gan gynnwys cynnig penodi unigolion i fod ar y Bwrdd.

Roedd y rhestr o 13 unigolyn a gynigiwyd fel Aelodau Bwrdd am y flwyddyn 2018/19 wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r camau nesaf gyda gloywi a diwygio'r model ar gyfer y Bwrdd Llywodraethu fyddai cynefino ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd ar ddechrau Mehefin, hyn i'w ddilyn gan gyfarfod cyntaf y Bwrdd nes ymlaen yn y mis. Byddai cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Bwrdd yna'n dod yn ôl o flaen y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo penodi'r 13 Aelod Bwrdd a restrwyd yn yr adroddiad, ac yn unol â'r model newydd ar gyfer y Bwrdd a gadarnhawyd gan y Cyngor.

## 181. CYNLLUN BUSNES *NORTH EAST WALES (NEW) HOMES*

Cyflwynodd y Cynghorydd Attridge yr adroddiad ar Gynllun Busnes *North East Wales (NEW) Homes* oedd yn gofyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r broses arfaethedig ar gyfer cymeradwyo benthyciad newydd i NEW Homes i ddatblygu neu brynu tai fforddiadwy yn Sir y Fflint.

Roedd y Cynllun Busnes yn cyflwyno elfennau allweddol o gynllun twf arfaethedig y cwmni i gynyddu nifer yr eiddo a reolir ac a berchenogir fel tai fforddiadwy dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Bwrdd NEW Homes wedi adolygu datblygiad y cwmni a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn amcanion gwreiddiol y Cynllun Busnes a arweiniodd at Gynllun Busnes diwygiedig ar gyfer NEW Homes.

Eglurodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau), fel rhan o'r broses adolygu, yr ystyriwyd tri phrif faes portffolio yn erbyn y rhagolygon a wnaed yn y Cynllun Busnes gwreiddiol. Y rhain oedd: Y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP), Unedau Adran 106 a Thai Gosod a Reolir, gyda'r manylion llawn yn yr adroddiad.

Canmolodd y Cynghorydd Roberts y gwaith a wnaed yn ei ward lle'r oedd tai wedi'u codi yn lle'r unedau meisonét anaddas, gan helpu i drawsnewid canol tref y Fflint. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod prinder cartrefi fforddiadwy i'w rhentu o hyd, a chyfeiriodd at Lys Alexandra yn yr Wyddgrug fel datblygiad llwyddiannus. Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod y cwestiwn polisi o gartrefi fforddiadwy'n cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Cynllun Busnes NEW Homes ar gyfer 2018/2027; a

(b) Rhoi awdurdod o dan bwerau dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, drwy ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid, i gymeradwyo benthyca darbodus pellach drwy'r Cyngor (hyd at uchafswm o £10m) i'w fenthyca ymlaen i NEW Homes er mwyn datblygu neu brynu cartrefi fforddiadwy. Hyn ar yr amod bod NEW Homes yn cwrdd â'r paramedrau benthyca cytunedig yn Atodiad 2 yr adroddiad.

**182. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd eitem wybodaeth am y camau a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Roedd y camau a gymerwyd fel a ganlyn:-

**Strydlun a Thrafnidiaeth**

- **Gorchymyn (Traffig Un Ffordd) (Alexandra Road a Victoria Road, Yr Wyddgrug) Cyngor Sir y Fflint 201.**
  Hysbysu'r Aelodau o wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn hysbysebu system Un Ffordd ar gyfer Alexandra Road a Victoria Road yn Yr Wyddgrug.

- **Gorchymyn (Gwahardd Gyrru) (Ac Eithrio ar gyfer Mynediad) (Tyddyn Street, Yr Wyddgrug) Cyngor Sir y Fflint 20-**
  Hysbysu'r Aelodau o wrthwynebiad a dderbyniwyd yn dilyn hysbysebu Gorchymyn (Gwahardd Gyrru) (Ac Eithrio ar gyfer Mynediad) Tyddyn Street, Yr Wyddgrug 201.

**Newid Sefydliadol**

- **Gwerthu 34.56 acer o dir gwag yn Wood Farm, Sandy Lane, Kinnerton CH4 9BS.**
  Mae'r tir i gael ei werthu i denant Hope Hall Farm, Yr Hob, ar ôl iddo ildio ei Denantiaeth Busnes Fferm yn y cyfeiriad hwnnw a symud wedyn i Wood Farm.

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Ardrethi ar Sail Caledi**
  O dan adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae gan y Cyngor ddisgresiwn i leihau neu ryddhau rhywun o dalu ardrethi lle mae'n fodlon y byddai'r trethdalwr yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny a lle byddai'n rhesymol iddo wneud hynny ar ôl ystyried buddiannau trethdalwyr y Cyngor. Mae cais a dderbyniwyd gan drethdalwr oedd yn rhedeg busnes partneriaeth yn Saltney, a'r busnes hwnnw heb fod yn masnachu mwyach, wedi'i wrthod ar y sail na chredir y byddai dyfarnu Rhyddhad Ardrethi ar Sail Caledi o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r camau sydd i'w cymryd o dan bwerau dirprwyedig.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol oherwydd gwybodaeth esempt o dan baragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**183. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – PROSIECT YSGOL UWCHRADD CEI CONA – BWRIAD I AMRYWIO CONTRACT**

Ar ôl datgan buddiannau personol a rhagfarnus yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr Attridge a Jones yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Prosiect Ysgol Uwchradd Cei Cona – Bwriad i Amrywio Contract oedd yn gofyn am ganiatâd i gomisiynu Kier Construction ar gyfer cam un y Contract Dylunio ac Adeiladu dau gam ar gyfer Cyfnod 2 y prosiect gwelliannau cyfalaf yn Ysgol Uwchradd Cei Cona.

Byddai angen cyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes (BJC) llwyddiannus i Lywodraeth Cymru (LlC) oherwydd roedd yn disgyn o dan y gwerth ariannol a fyddai'n golygu gorfod cyflwyno Achos Busnes Llawn (FBC).

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Cabinet yn cefnogi a chymeradwyo cychwyn ar gam un y Contract Dylunio ac Adeiladu dau gam gyda Kier Construction, ar gyfer Cyfnod 2 y rhaglen adeiladu. O dan Gyfnod 1, bydd y gwaith dylunio manwl a chadarnhau costau yn cael ei wneud ar yr un pryd ag y bo'r contractwr / tîm presennol a gwaith adeiladu Cyfnod 1 yn digwydd ar y safle.

**184. CANOLFAN NEWYDD ANABLEDDAU DYSGU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER DARPARU CYFLEOEDD DYDD A GWAITH - COMISIYNU CONTRACT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ar Gomisiynu'r Contract ar gyfer Canolfan Newydd Anableddau Dysgu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Darparu Cyfleoedd Dydd a Gwaith oedd yn gofyn caniatâd i gontractio gyda Kier Construction ar gyfer Canolfan Newydd Anableddau Dysgu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Darparu Cyfleoedd Dydd a Gwaith yn Queensferry.

Roedd costau dangosol y prosiect fymryn yn uwch na'r dyraniad a neilltuwyd yn y rhaglen gyfalaf a chais ydoedd i gymeradwyo uchafswm pris contract hyd nes y cyflwynir prosesau peirianyddol gwerth pellach i leihau costau lle byddai hynny'n bosib.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod llythyr wedi'i ddrafftio ar gyfer Llywodraeth Cymru (LlC) yn gofyn am gyllid ychwanegol i gefnogi'r prosiect ac ychydig o gyllid cyfalaf, oedd wedi'i gefnogi gan Aelodau'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai'r Cabinet yn cefnogi a chymeradwyo'r contract gyda Kier Construction i adeiladu a darparu Canolfan Newydd Anableddau Dysgu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Darparu Cyfleoedd Dydd a Gwaith yn Queensferry ond y dylid cadw o fewn y terfynau ariannol yn yr adroddiad; a

(b) Bod y Cabinet yn gofyn i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf atodol i gwrdd â'r amcangostau ychwanegol.

**185. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD OEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 10.47am)

……………………………
**Cadeirydd**